Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



# CADWCH YN DDIOGEL YR HAF HWN

South Wales
Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL

# Eisiau gwybod sut i gadw'n ddiogel yr haf hwn?

Rydym am i bawb fwynhau'r haf – a bod  yn ddiogel hefyd.

Mae yna beryglon gwirioneddol yn yr haf os nad ydych yn dilyn cyngor ymarferol a chywir, o ran diogelwch ffyrdd a thân, sy'n briodol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

Gall ychydig o ragofalon syml ac ychydig mwy o ofal eich cadw chi a'ch teulu'n ddiogel a chynorthwyo i atal y mwyafrif o beryglon tân a ffyrdd.

**Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor syml i chi ar sut mae gwneud hyn tra byddwch chi a'ch teulu yn mwynhau eich hunain yr haf hwn.**



# Diogelwch Tân yng Nghefn Gwlad

**Yn ystod yr haf, gall gwair a mynyddoedd dyfu'n sych iawn, sy'n golygu os byddwch yn cynnau tân yn yr awyr agored yn fwriadol neu'n ddamweiniol bydd yn gwasgaru'n gyflym iawn, yn distrywio popeth sydd yn ei lwybr.**

- Diffoddwch sigaréts a defnyddiau ysmygu'n gywir.
- Defnyddiwch farbeciws mewn ardaloedd diogel ac addas yn unig - peidiwch byth â'u gadael heb eu goruchwylio a diffoddwch hwy yn gywir bob tro.
- Peidiwch byth â chynnau tanau agored yng nghefn gwlad.

## Awgrym da





**Peidiwch byth â chynnau tanau agored yng nghefn gwlad**

# Gwersylla a charafanio


- Sicrhewch y cedwir pellter diogel a phriodol rhwng pebyll neu garafanau - yn ôl cyfarwyddyd eich gwersyll.
- Darganfyddwch beth yw trefniadau ymladd tân eich gwersyll a ble mae’r ffôn agosaf.
- Cadwch fflach lamp wrth law ar gyfer argyfyngau. Peidiwch â defnyddio cannwyll.
- Gosodwch larwm mwg gweledol yn eich carafán.
- Peidiwch â gadael plant ar eu pennau eu hunain mewn carafán.


**Peidiwch byth â gorlwytho socedau plygiau – argymhellir dyfeisiau cerrynt gweddillol (RCD) – a sicrhewch y byddwch yn dadweindio ceblau ymestyn torchog bob tro.**

### Os bydd tân:

- Ewch â phawb allan ar unwaith. Mae tanau mewn pebyll a charafannau yn lledu’n gyflym iawn.
- Galwch 999 a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Rhowch gyfeirnod map, os yn bosib. Fel arall, soniwch am unrhyw dirnod megis fferm neu dafarn a fydd yn cynorthwyo’r Gwasanaeth Tân ac Achub i ddod o hyd i chi.

## Awgrym da





**Sicrhewch y cedwir pellter diogel a phriodol rhwng pebyll neu garafanau**

## Pebyll


- Cadwch fatsis a thanwyr allan o gyrraedd plant.
- Cadwch hylifau fflamadwy a silindrau draw oddi wrth bebyll.
- Peidiwch â choginio y tu mewn i'ch pabell.
- Byddwch yn barod i dorri eich hun allan o'r babell os bydd tân.
- Os bydd eich dillad yn cynnau, **STOPIWCH, DISGYNNWCH A RHOLIWCH.**
- Peidiwch byth â defnyddio canhwyllau mewn pabell neu'n agos at babell. Mae fflachlampau yn llawer mwy diogel.
- Ni ddylid defnyddio peiriannau llosgi olew naill ai y tu mewn i bebyll nac o'u cwmpas.
- Ni ddylid defnyddio cyfarpar coginio mewn pebyll bychain.
- Peidiwch ag ysmygu y tu mewn i bebyll.



STOPIO!



DISGYN!



RHOLIO!

### Awgrym da



**Peidiwch byth â defnyddio canhwyllau mewn pebyll**

# Barbeciws

## Barbeciws golosg

- Sicrhewch fod eich Barbiciw yn gweithio'n dda.
- Cadwch fwced o ddŵr, tywod neu bibell ardd gerllaw rhag ofn cewch argyfyngau.
- Gwnewch yn siŵr bod safle eich barbeciw yn wastad ac yn bell i fwrdd oddi wrth adeiladau, ffensys, coed a llwyni.
- Defnyddiwch ddigon o olosg i orchuddio gwaelod y barbeciw yn unig hyd ddyfnder o tua 50mm (dwy fodfedd).
- Cadwch blant, gemau gardd ac anifeiliaid anwes yn bell i ffwrdd o'r ardal goginio.
- Peidiwch ag yfed a choginio.
- Pan fyddwch wedi gorffen coginio, sicrhewch fod y barbeciw yn oer cyn ceisio ei symud. Gwagiwch lwch yn syth ar bridd moel yr ardd.
- Peidiwch byth â gadael barbeciw heb ei oruchwylio.
- Peidiwch byth â rhoi llwch yn syth mewn i fin sbwriel neu fin olwyn. Os byddant yn boeth, gallant blygu'r plastig ac achosi tân.

## Barbeciws nwy

- Sicrhewch fod y tap wedi'i ddiffodd cyn newid y silindr nwy.
- Newidiwch silindrau nwy yn yr awyr agored os yn bosib neu agorwch ddrysau a ffenestri er mwyn sicrhau awyru da.

**Awgrym da**








**Cadwch ddŵr gerllaw bob amser**

- Wedi i chi orffen coginio, diffoddwch y silindr nwy cyn i chi ddiffodd rheolyddion y barbeciw er mwyn sicrhau y defnyddir unrhyw nwy sydd yn y biben.
- Defnyddiwch farbeciws a thanau agored yn yr awyr agored yn unig.


### Storio silindrau nwy

- Storiwch silindrau nwy o dan amodau da a diogel.
- Cadwch silindrau nwy rhag rhew a haul uniongyrchol.
- Peidiwch byth â storio silindrau nwy o dan y grisiau yn eich cartref - os ydych yn byw i fyny grisiau hwn yw eich ffordd o ddianc rhag tân.
- Peidiwch â chadw silindrau nwy nad oes eu hangen arnoch. Dychwelwch bob silindr gwag i ble bynnag y prynoch chi hwy.

**Peidiwch byth â rhoi barbeciw (barbeciw nwy, barbeciw golosg neu farbeciw tafladwy) yn eich pabell, carafán nac adlen - hyd yn oed un sy'n oeri. Nid yn unig mae risg o dân, ond bydd mygdarthau Carbon Monocsid hefyd yn codi o dân.**

**Mae Carbon Monocsid yn anweladwy, yn ddiarogl ac yn farwol. Mae'n bosib y byddwch yn credu ei fod yn ddiogel gan fod y fflamau wedi diffodd OND allyrrir mwy o Garbon Monocsid oddi ar farbeciw sy'n oeri nag un poeth.**

## Awgrym da




**Peidiwch byth â storio silindrau nwy o dan y grisiau**

# Hedfan i'r haul


Dilynwch y camau syml hyn cyn gadael eich cartref er mwyn lleihau'r perygl o ddychwelyd adref i dân go iawn!

- Diffoddwch offer trydanol a thynnwch y plwg
- Trowch y cyflenwad dŵr i ffwrdd i atal gollyngiadau posib rhag dod i gysylltiad â gwifrau trydanol, ac achosi tân
- Rhowch wybod i gymydog eich bod yn mynd i ffwrdd a rhowch allwedd iddynt rhag ofn bydd argyfwng
- Caewch bob drws a ffenestr, gan y bydd hyn yn arafu tân

## Awgrym da



**Caewch bob drws a ffenestr**




**Diffoddwch offer trydanol a thynnwch y plwg**



**Rhowch allwedd i gymydog ar gyfer argyfyngau**

# Llusernau Papur (Tsieineaidd)

Nid ydym yn argymell defnyddio llusernau papur. Maen nhw'n gallu achosi tân i eiddo, cnydau, cerbydau ac anifeiliaid yn ogystal â gwneud niwed i'r amgylchedd. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu defnyddio llusernau papur, ystyriwch y cyngor canlynol.

**Cofiwch wneud y canlynol:**

- Sicrhau bod yr ardal lansio yn glir o ddeunyddiau fflamadwy.
- Lansio llusernau i ffwrdd oddi wrth rwystrau megis coed, gwifrau trydan neu ffôn ac adeiladau.
- Gwirio cyfeiriad a chyflymder y gwynt cyn lansio'r llusernau.

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- Peidiwch byth â defnyddio llusern sydd wedi'i difrodi.
- Peidiwch byth â lansio llusernau mewn ardaloedd trefol.
- Peidiwch byth â lansio llusernau mewn ardaloedd sy'n cynnwys anifeiliaid neu gnydau.
- Peidiwch byth â lansio llusern ger ffordd neu briffordd gyhoeddus, yn enwedig prif ffyrdd a thraffyrdd.
- Peidiwch byth â lansio llusern os yw'r gwynt yn gryfach nag awel haf ysgafn.




**Peidiwch byth â lansio llusernau gerllaw coed neu wifrau trydan**




**Gwiriwch gyfeiriad y gwynt a'i gyflymder cyn eu lansio**

# Diogelwch ar y Ffordd


Mae'n hawdd iawn bod yn hunanfodlon ynghylch peryglon ar y ffyrdd yn ystod diwrnodau a nosweithiau hir yr haf. Fodd bynnag, gall peidio â gwisgo eich gwregys diogelwch neu gael 'dim ond un ddiod' achosi cymaint o niwed yn yr haf â drwy gydol gweddill y flwyddyn.

Rhaid i chi ystyried diogelwch ar y ffyrdd yn ystod yr haf, yn arbennig os yw eich teulu yn y car gyda chi. Cofiwch arafu, osgoi goddiweddyd a pheidio ag yfed a gyrru.

Diffoddwch eich ffonau symudol pan fyddwch yn gyrru a sicrhewch fod eich plant yn gwisgo gwregysau diogelwch ac yn eistedd mewn seddi car ar gyfer plant os ydynt yn fach.



**Peidiwch â phasio cerbyd arall heb eisiau**



**Diffoddwch eich ffôn symudol**

I weld mwy o daflenni diogelwch, ymwelwch â:

**www.freesmokealarm.co.uk**